**Y Cynghorydd / Councillor**
R. Hywel Wyn Williams
Ward - Abersoch

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, Arolygwyr Hywel Wyn Jones, Richard Duggan

Swyddog Rhaglen Sharon Ellis

08/08/16

. Datganiad am Ward Abersoch Cymuned Llanengan

Abersoch sydd yn Bentref erbyn hyn gydag dros 60% o dai Haf/ Tai Gosod, lle mae'r polisi yn gofyn am 10% yn unig,
Y prif ddiwydiant a gwaith ydi Twristiaeth, lle mae cyflogaeth yn dymhorol a chyflog yn isel.
Yn y flwyddyn 1995 roedd yna 920 a'r rhestr Etholwyr y Ward, erbyn heddiw'r flwyddyn 2016, 530 yn unig sydd wedi ei rhestru, sydd yn ddarlun clir o ostyngiad yn y boblogaeth leol, ac mae'r Pentref erbyn hyn yn cael ei adnabod fel y " Black Village" oherwydd yn y gaeaf prin iawn ydi'r golau Trydan sydd yn dod o'r Tai gyda rhai strydoedd yn hollol wag o bobl, ( gweler map)

Heddiw yn Ward Abersoch mae yna 37. o dai a'r werth a 4 Fforddiadwy, lle mae gwanc y datblygwyr yn gofyn am £245,000" yr run am dri o'r tai yma sydd ymhell o fod yn fforddiadwy, ac yn annerbyniol iawn, hefyd mae yna geisiadau eraill tu fewn i'r ffin sydd yn disgwyl neu newydd ei dechrau cyfanswm o 24 i'r farchnad agored 2 Fforddiadwy a 2 Fforddiadwy/rent sydd yn gais ar ei ffordd gan Dai Gogledd Cymru, Felly yn barod mae'r cyfanswm yn uchel sef 61 o dai farchnad agored = Tai Haf ag 8 Fforddiadwy a'r gael, Mae hyn yn ddatganiad clir o'r sefyllfa nad oes angen ymestyn y ffin yn Ward Abersoch sydd wedi ei dynodi mewn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol

Hefyd mae adroddiad asesiad Iaith yr uned Polisi yn cyfeirio at y lleiafrif o 43-5% o boblogaeth y Ward oedd yn siarad Cymraeg yn 2011, ac yn sicr mae yna ddirywiad ers y dyddiad yna, sydd eto yn glir iawn fel dangosydd i ddirywiad y Gymdeithas Gynhenid leol, mae'r cydbwysedd yma yn sefyllfa o annhegwch, ac mae angen i'r Cynllun Unedol Newydd unioni'r anghydbwysedd, Mae yn fater difrifol iawn ac mae angen i'r Cynllun atgyfnerthu cymeriad Cymreig yr Ardal.

Mae diffyg cyfraniad y Tai Haf yn newidiol i fuddiannau 'r Iaith Gymraeg, ac mae'r Tai yn wag am adegau hir o'r flwyddyn yn enwedig yn ystod y gaeaf, ac nid ydynt yn cyfrannu llawer at yr Economi na'r Gymdeithas, mae'r dystiolaeth yn glir bod angen Tai Fforddiadwy angen lleol yn unig mewn Pentref Arfordirol fel Abersoch a thu fewn i ardal AHNE, a fydd yn gwarchod, hyrwyddo a gwella defnydd o'r Iaith Gymraeg.

Rydym yn erfyn yn gryf arnoch fel Arolygwyr eich bod yn gwrthod y 4 Cais sydd am foddi Ward Abersoch gyda chymaint o Dai Haf trwy ymestyn ffin adeiladu'r Ward, a chadw gan gyfeirio at y Polisi presennol CH10 sydd yn datgan y gwrthodir cynigion am dai newydd fydd yn arwain at fwy o ail gartrefi mewn Cymuned lle maent eisoes yn ffurfio cyfartalaeth uchel o'r stoc dai, sef y 60%

Mae'r Polisi uchod yn cael cefnogaeth Swyddogion a Chyngor Cymuned Llanengan a sawl mudiad arall, gyda diolch, ac edrychaf ymlaen i drafod ymhellach yn y gwrandawiad os bydd angen.

Yn gywir iawn
R.H Wyn Williams [redacted]

Cynghorydd Ward Abersoch
Cyngor Gwynedd.

[redacted]

Abersoch

Fel y nodir yn asesiad yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, lleiafrif, sef 43.5% o boblogaeth ward Abersoch oedd yn siarad Cymraeg yn 2011.

Neilltuwyd tir ar gyfer 67 o dai yma yn ystod oes y Cynllun. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o tua 15% ar nifer presennol aelwydydd y ward, er nad yw aelwydydd y ward yn cyfrif am gymaint â hanner o gyfanswm tai y ward trwy fod cymaint ohonynt yn ail gartrefi neu dai gwyliau. Yn wyneb problem fforddiadwyedd tai yn Abersoch, croesewir y ffaith mai tai fforddiadwy a thai marchnad leol yn unig a fydd yn cael eu caniatáu yma. Ar yr un pryd, dylid monitro effaith datblygiadau o'r fath ac asesu a yw'r meini prawf yn ddigon cadarn i sicrhau bod cyfran ddigonol o'r tai yn mynd i'r boblogaeth gynhenid.

gwblhau gwaith, ymrwymiadau, safleoedd ar hap a dynodiadau newydd. Bydd ffiniau aneddleoedd yn cael eu haddasu er mwyn adlewyrchu'r datblygiad arfaethedig. Bydd y Ganolfan yn darparu ar gyfer cyfuniad o dai ar y farchnad agored a thai fforddiadwy.

**POLISI MANWL TAI15: TAI MEWN CANOLFANNAU GWASANAETH LLEOL**

**Yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol a ganlyn:**

**Ynys Môn**
**Biwmares, Benllech, Bodedern, Cemaes, Gaerwen, Llanfairpwll, Porthaethwy, Pentraeth, Rhosneigr, Y Fali**

**Gwynedd**
**Abermaw, Abersoch, Bethesda, Criccieth, Llanberis, Llanrug, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Penygroes, Tywyn**
**Bydd tai i fodloni strategaeth y Cynllun yn cael eu darparu trwy:**

**(i) Dynodiadau**

**Mae'r safleoedd a ganlyn wedi'u hadnabod fel Dynodiadau Tai:**

| Canolfan | Cyfeirnod y Safle | Enw'r Safle | Lefel Twf Dangosol | Caniatâd (Ebr 2014) |
|---|---|---|---|---|
| Biwmares | T32 | Casita | 35 | Oes |
| Benllech | T33 | Ger Caffi Wendon | 12 | Na |
| Bodedern | T34 | Tir ger Llwyn Angharad | 48 | Na |
| Cemaes | T35 | Tir tu cefn i Ffordd Caergybi | 60 | Na |
| Gaerwen | DIM | - | - | - |
| Llanfairpwll | T36 | Tir ger Bryn Eira | 30 | Na |
| | T37 | Tir ger Ffordd Penmynydd | 10 | Oes |
| Porthaethwy | T38 | Ty Mawr | 20 | Oes |
| | T39 | Tyddyn Mostyn | 40 | Oes |
| | T40 | Tir ger Lôn Gamfa | 14 | Na |
| Pentraeth | DIM | - | - | - |
| Rhosneigr | DIM | - | - | - |
| Y Fali | T41 | Cyn Cae Sêl | 40 | Na |
| Abermaw | DIM | - | - | - |
| Abersoch | DIM | - | - | - |
| Bethesda | DIM | - | - | - |
| Criccieth | T42 | Tir ger North Teras | 34 | Na |
| Llanberis | T43 | Tir ger Gwesty'r Fic | 16 | Na |
| | T44 | Tir ger Lôn Tŷ Du | 11 | Oes |
| Llanrug | T45 | Cae'r Eglwys | 10 | Oes |
| | T46 | Tir ger Lôn Rhythallt | 6 | Oes |

**Map / Inset 20**

**Abersoch**

